

IESU - EI FARWOLAETH

CYN Y SGWRS

- > Croesawch bawb sydd wedi dod ac awgrymwch eu bod yn cymryd 20 munud i weithio trwy'r adran o'r Llawlyfr Astudio o'r enw TRAFODAETH GRŴP I gyda'u grŵp.

Y SGWRS

- > Cyflwynwch y sgwrs. Dim ond canllaw cyffredinol yw'r geiriad isod. Diben y sgwrs yw egluro pwysigrwydd y groes, ac edrych ar yr ymatebion gwahanol i farwolaeth Iesu fel y cânt eu disgrifio yn Efengyl Marc.

Roeddwn i yn Awstralia unwaith yn aros gyda ffrind, ac aeth â fi i draeth ar Fae Botany. Roedd y traeth yn wag, roedd yr haul allan ac roedd y dŵr yn glir fel grisial ac mor dawel â phwll melin. Felly penderfynais fynd i nofio. Roeddwn i wrthi'n tynnu fy nghrys pan ddywedodd fy ffrind, "Beth wyt ti'n ei wneud?" Dywedais, "Dwi'n mynd i nofio." Dywedodd ef, "Ond beth am yr arwyddion hyn?" Edrychais o'm cwmpas a gwelais arwydd mawr yn dweud: "Perygl - Siarcod. Dim nofio." Dywedais, "Paid â bod yn wirion, mi fydda i'n iawn." Edrychodd arna i a dweud, "Gwranda, mae dau gant o Awstraliaid wedi cael eu lladd gan siarcod dros y blynyddoedd. Rhaid i ti benderfynu a yw'r arwyddion hyn yno i'th achub neu i ddifetha dy hwyl. Rwy'ti'n ddigon hen - penderfyna di." A chyda hynny cerddodd i ffwrdd at y traeth. Eisteddais yno'n wylaidd a rhoi fy nghrys ymlaen. Gobeithio eich bod yn gweld fy mhwynt. Mae geiriau Iesu fel arwydd perygl enfawr i ni. Mae gennym ni ryddid i benderfynu anwybyddu'r geiriau neu beidio, ond mae'n ein rhybuddio am reswm.

Yr wythnos diwethaf fe welsom, yn ôl Iesu, fod gan bob un ohonom "broblem calon" ddifrifol. Yn Marc pennod 7, adnod 20 mae'n dweud: "Yr hyn sy'n dod allan o rywun, dyna sy'n ei halogi [trwy ddweud "halogi" mae Iesu'n golygu "pechadurus"]. Oherwydd o'r tu mewn, o galon dynion, y daw allan feddyliau drwg, puteinio, lladrata, llofruddio, godinebu," ac â'r rhestr yn ei blaen. Golyga hyn ein bod mewn perygl, os ydym yn sylweddoli hynny ai peidio, oherwydd yn y pen draw bydd ein pechod yn ein harwain i uffern.

Ond fel y gwelsom hefyd, y newyddion hyfryd yw nad yw Iesu eisïau i ni fynd yno. Fel y dywedodd ei hun: "i alw pechaduriaid, nid rhai cyfiawn, yr wyf fi wedi dod." Mae Iesu eisïau achub pobl bechadurus fel chi a fi. Y cwestiwn yw: sut mae Iesu'n gwneud hynny?

Trowch gyda mi i Marc pennod 8, adnod 31.

- > Darllenwch Marc 8:31 allan yn uchel.

Felly dysgodd Iesu i'w ddilynwyr ei bod yn rhaid iddo ddioddef a chael ei wrthod. Roedd yn rhywbeth yr oedd yn rhaid iddo'i wneud. Ond pam?

Mae'r ateb i'w gael yn Marc pennod 10, adnod 45, lle mae Iesu'n dweud:

> Darllenwch Marc 10:45.

Felly dyna beth y daeth Iesu i'w wneud, "i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer." Aeth Iesu i'w farwolaeth o'i wirfodd ac yn fwriadol. Yn wir, roedd yn gwybod ei bod yn angenrheidiol.

Edrychais ar fywgraffiad o fywyd Winston Churchill yn ddiweddar ac roedd hi'n ddiddorol gweld mai dim ond tair tudalen allan o dri chant o dudalennau oedd yn sôn am farwolaeth Churchill.

Os ydych yn edrych ar y rhan fwyaf o fywgraffiadau, mae'r ysgrifenyddys eisieu siarad am fywyd yr unigolyn, nid am eu marwolaeth. Yn wir, yn aml mae'r ysgrifenyddys yn gwneud cyfrif bychan iawn yn unig o'u marwolaethau. Ac eto, mae traean o bob un o'r Efengylau yn siarad am farwolaeth Iesu.

Nid yn unig hynny, ond nid yw Cristnogion yn peidio â siarad am y groes. Mae hyn yn ymddangos yn rhyfedd oherwydd ystyriwyd croeshoelio, sef y modd y bu Iesu farw, yn rhywbeth hynod o gywilyddus. Mae'r ysgrifennydd Rhufeinig, Cicero yn ei ddisgrifio fel hyn: "mae'r dienyddiwr, y gorchudd sy'n gorchuddio pen y dyn sydd wedi'i gondemnio, croes y croeshoeliad, yn arswyd a ddylai fod wedi'i symud ymhell o berson, meddwl, golwg a chlyw'r dinesydd Rhufeinig. Mae hi'n gwbl anghywir gorfodi dinesydd Rhufeinig, dyn rhydd, i oddef neu ganiatáu pethau mor ofnadwy."

Roedd croeshoelio yn weithred a oedd yn fwriadol greulon ac erchyll er mwyn i unrhyw gaethwas a oedd yn ystyried gwrthryfela basio heibio'r sawl a oedd yn cael ei groeshoelio a dod i'r casgliad nad oedd hi'n werth mentro. Dyma oedd yr ataliad gorau posibl.

Felly pam y daeth y groes i fod yn symbol o Gristnogaeth a gydnabyddir yn fyd-eang? Gallai Cristnogion fod wedi dewis preseb i'w hatgoffa am enedigaeth Iesu, neu efallai sgrôl i'w hatgoffa am ei ddysgeidiaeth ryfeddol. Ond na, croes yw'r symbol - rhywbeth i atgoffa pobl am ei farwolaeth. Ac yn sicr nid oes unrhyw grefydd arall yn dathlu marwolaeth ei sylfaenydd. Mae'r ateb yn syml. Mae'r groes mor bwysig oherwydd mai marwolaeth Iesu yw'r unig ffordd y gallwn gael ein hachub rhag ein pechodau. Dyma sut y mae Iesu'n achub pobl. I ddeall yn union beth mae hyn yn ei feddwl, mae'n rhaid i ni ddarllen cyfrif am farwolaeth Iesu, felly beth am edrych ar Marc pennod 15, adnodau 22 i 39.

> Darllenwch Marc 15:22-39 allan yn uchel.

Rydym yn dysgu tri pheth trawiadol o'r darn hwn:

> Dangoswch y penawdau canlynol a'u darllen allan yn uchel.

Roedd Duw yn ddig.
Cafodd Iesu ei adael.
Gallwn ni gael ein derbyn.

ROEDD DUW YN DDIG

Yn gyntaf, roedd Duw yn ddig. Mae adnodd 33 yn dweud: "A phan ddaeth yn hanner dydd, bu tywyllwch dros yr holl wlad hyd dri o'r gloch y prynhawn."

Ar yr adeg pan fyddai haul canol dydd wedi bod fwyaf llachar yn yr awyr, daeth tywyllwch dros yr holl wlad tan dri o'r gloch y prynhawn. Nid diffyg ar yr haul ydoedd, oherwydd roedd y Pasg bob amser yn digwydd ar leud lawn, ac mae diffyg ar yr haul yn amhosibl yn ystod lleud lawn. A chofiwch, nid yw diffyg ar yr haul fyth yn para mwy na chwe munud. Gwnaeth y tywyllwch hwn bara tair awr. Felly, mae rhywbeth goruwchnaturiol yn digwydd yma.

Dro ar ôl tro yn y Beibl, mae goleuni yn symbol o bresenoldeb a bendith Duw, tra bod tywyllwch yn arwydd o ddicter a barn Duw. Felly pan mae Iesu'n marw a thywyllwch yn dod dros y wlad, rydym yn gwybod yn syth bod Duw yn ddig.

Nawr, allwn ni ddim deall hyn os ydym yn gweld dicter fel rhywbeth sy'n anrhagweladwy a gwyllt ac yn ganlyniad i golli tymer. Nid dicter felly sydd gan Dduw. Mae dicter Duw yn elyniaeth sefydlog, reoledig a phersonol yn erbyn popeth sy'n anghywir. Ac mae Duw sy'n poeni am anghyfiawnder yn iawn i fod yn ddig ynghylch pechod, ac mae'n iawn i'w gosbi.

Mae Duw yn Dduw sancteiddrwydd, yn Dduw llawn purdeb, ac mae'n casáu drygioni. Wrth ymdrin â drygioni nid yw Duw yn eistedd nôl mewn cadair siglo a chymryd arno nad oes dim wedi digwydd. Na, mae drygioni o bwys i Dduw. Felly mae dweud celwydd o bwys i Dduw, a hunanoldeb. Yn yr un modd mae godineb o bwys iddo. Mae trachwant o bwys iddo. Mae llofruddiaeth o bwys iddo. Mae marwolaethau menywod a phlant Kosovo sy'n cael eu lladd oherwydd eu bod yn dod o'r grŵp ethnig anghywir o bwys i Dduw, yn yr un modd ag y mae marwolaethau'r rhai a oedd yng Nghanolffannau Masnach y Byd, ac ni wnaiff Duw eu hesgeuluso. Os ydym ni'n poeni am yr anghyfiawnderau yr ydym yn eu gweld yn y byd, allwn ni ddim disgwyl i'n Creawdwr cariadus beidio â phoeni.

Felly, wrth i Iesu farw ar y groes, daeth tywyllwch dros yr holl wlad. Roedd Duw yn gweithredu yn ei ddicter i gosbi pechod. Ond mae hynny'n gadael un cwestiwn: pechod pwy oedd yn gwneud Duw'n ddig? Yr ateb syfrdanol yw bod Duw'n ymddangos fel petai'n ddig gydag Iesu.

CAFODD IESU EI ADAEL

Daw hyn â ni at ein hail gwestiwn: Cafodd Iesu ei adael. Dywed adnod 34: "Ac am dri o'r gloch gwaeddodd Iesu â llef uchel, "Eloï, Eloï, lema sabachthani", hynny yw, o'i gyfieithu, "Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?"

Nawr does dim amheuaeth bod Iesu wedi dioddef ing corfforol ar y groes, ond yr hyn sydd i'w weld yma yw ing ysbrydol - cael ei adael gan Dduw. A'r gair y mae Iesu'n ei ddefnyddio am "Dduw" yma yw "Eloï." Fel rheol mae Iesu'n defnyddio'r gair "Abba," sy'n debyg i "Dad." Ond nid oes gan "Eloï" yr un cynhesrwydd ac agosatrwydd.

Ar y groes, cefnodd Duw ar Iesu. Iesu oedd yn cael ei gosbi gan Dduw. Ond roedd Iesu wedi byw bywyd dibechod. Nid oedd hyd yn oed ei elynion pennaf yn gallu dod o hyd i unrhyw feiau ynddo. Felly pam ddylai Duw ei gosbi? A pham fod Iesu wedi caniatáu i hyn ddigwydd?

Ateb: er mwyn i ni gael ein hachub. Sut y gall hyn fod?

> *Daliwch dâp fideo gwag yn eich llaw dde*

Hoffwn i chi gymryd arnoch mai cofnod o'ch bywyd yw'r fideo hwn. Dywed y Beibl: "Nid oes dim a grëwyd yn guddiedig o'i olwg, ond y mae pob peth yn agored ac wedi ei ddinoethi o flaen llygaid yr Un yr ydym ni i roi cyfrif iddo." Felly mae popeth yr ydym erioed wedi'i wneud, ei ddweud a'i feddwl ar y fideo hwn. Nawr y peth cyntaf yr hoffwn ei ddweud yw bod llawer o bethau da iawn ar y fideo. Efallai bod cartref cariadus, gweithredoedd anhunanol, cyflawniadau academaidd, llwyddiannau yn y celfyddydau neu ar y cae chwarae, efallai bod gyrfa lwyddiannus.

Ond mae llawer o bethau sy'n codi cywilydd arnoch ar y fideo hwn hefyd. Pethau yr hoffech eu cuddio rhag pobl. Anfonodd Syr Arthur Conan Doyle, creawdwr Sherlock Holmes, deigram at y deuddeg unigolyn uchaf eu parch yn Llundain un noson. Roedd y telegram yn dweud: "Ffowch - mae popeth wedi'i ddatgelu." O fewn 24 awr, roedd chwech allan o'r deuddeg wedi gadael y wlad.

Fel y bobl hyn, mae gan bob un ohonom gyfrinachau nad ydym eisiau i neb eu datgelu. Ond mae'r Beibl yn dweud wrthym fod y cyfan wedi'i gofnodi. Ac nid yn unig y ffordd yr ydym yn trin eraill, ond mae'r ffordd yr ydym wedi trin Duw hefyd wedi'i gofnodi. Ffordd y Beibl o ddisgrifio'r hyn sydd ar y fideo yw "cofnod anffafriol o'n dyledion."

Nawr, tybiwch mai fi yw fy llaw chwith,

> *Daliwch eich llaw chwith allan, gyda chleddr eich llaw at i fyny.*

a bod y nenfwd yn cynrychioli Duw. Yn ôl y Beibl, mae'r "cofnod o ddyledion" hyn yn dod rhyngom ni â Duw, ac mae'n ein gwahanu oddi wrth Dduw.

> *Rhowch y fideo ar gleddr eich llaw chwith.*

Yn wir, mae'r Beibl yn dweud bod Duw mor bur, nes y byddai recordio un eiliad yn unig o'm bywyd ar y fideo hwn yn ddigon i'm gwahanu oddi wrth Dduw. Mae fy mhechod yn fy ngwahanu oddi wrth Dduw; Rwyf wedi cael fy ngadael yn llwyr. Ond gadewch i mi ddangos beth sy'n digwydd ar y groes.

> *Daliwch eich llaw dde allan gyda chleddr eich llaw at i fyny. Dylai'r fideo fod ar eich llaw chwith o hyd.*

Tybiwch fod fy llaw dde yn cynrychioli Iesu, a chofiwch mai'r nenfwd sy'n cynrychioli Duw. Wrth i Iesu hongian ar y groes nid oedd unrhyw rwystr rhyngddo â Duw. Roedd bob amser wedi ufuddhau'n berffaith i ewyllys Duw. Ond, tra'r oedd Iesu ar y groes, cymerodd fy mhechodau i.

> *Nawr symudwch y fideo o'ch llaw chwith i'ch llaw dde.*

Dyna pam y gwnaeth Iesu weiddi, "Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt wedi fy ngadael?" wrth iddo hongian ar y groes. Nid ei bechod Ef a oedd yn gwneud iddo deimlo Ei fod wedi'i wahanu oddi wrth Dduw, oherwydd mae'r Beibl yn dweud wrthym na wnaeth Iesu bechu. Nage, ein pechod ni wnaeth wahanu Iesu oddi wrth Dduw. Yn y munudau ingol hynny, roedd Iesu'n cymryd arno'i hun y gosb y mae ein pechodau ni, popeth ar y fideo hwn, yn ei haeddu. Mae'r Beibl yn dweud "Rydym ni i gyd wedi crwydro fel defaid, pob un yn troi i'w ffordd ei hun; a rhoes yr ARGLWYDD arno ef ein beiau ni i gyd." Bu farw Iesu yn fy lle, gan gymryd y gosb yr wyf fi'n ei haeddu.

> *Cyfeiriwch bawb yn ôl at eich llaw chwith, sydd bellach yn wag, gyda chledr eich llaw ar i fyny.*

Canlyniad hunanaberth hynod Iesu yw hyn: gallwn gael ein derbyn gan Dduw. Gwnaeth Iesu dalu'r pris er mwyn i ni beidio gorfod gwneud hynny. Y gwirionedd anhygoel yw bod Duw wedi fy ngharu i ddigon i farw dros fy mhechod. Bu farw dros fy mhechod i, a thros bechod pawb sy'n rhoi eu ffydd ynddo.

GALLWN NI GAEL EIN DERBYN

Ac mae hyn yn ein harwain at y trydydd pwynt: Gallwn ni gael ein derbyn.

Beth am edrych eto ar adnodau 37 a 38.

> *Darllenwch Marc 15:37-38 allan yn uchel*

Yma mae Marc yn cofnodi'r union foment y bu Iesu farw, ond yna mae'n tynnu ein sylw at rywbeth sy'n digwydd ar yr un pryd yn y deml, sydd ar yr ochr arall i'r ddinas. Mae eisiau i ni ddeall bod cysylltiad o ryw fath rhwng y ddau ddigwyddiad.

Pan fu farw Iesu, cafodd y llen ddeng modfedd ar hugain yn y deml, a oedd mor drwchus â rhychwant llaw dyn, ei rhwygo o'r top i'r gwaelod. Pam mae hynny'n arwyddocaol? Wel, roedd y llen trwchus hwn yn hongian yn y deml, gan wahanu'r bobl oddi wrth y lle yr oedd Duw'n byw. Roedd y llen fel arwydd "Dim mynediad" mawr. Roedd yn dweud yn uchel a chliir ei bod yn amhosibl i bobl bechadurus fel chi a fi gerdded i mewn i bresenoldeb Duw.

Yna, yn sydyn, wrth i Iesu farw ar y groes, mae Duw yn torri'r llen yn ddau, o'r top i'r gwaelod. Mae fel petai Duw'n dweud: "Mae'r ffordd bellach ar agor i bobl ddod ataf fi." A'r unig ffordd y mae hyn yn bosibl yw oherwydd bod Iesu wedi talu'r pris am ein pechod ni.

Ac nid trydydd parti diniwed y mae Duw yn pigo arno yw Iesu. Fel y mae Paul yn ei ddweud yn Colosiaid, "Oherwydd gwelodd Duw yn dda i'w holl gyflawnder breswyllo ynddo ef [Iesu]." Y gwirionedd anhygoel yw bod Duw ei hun yn cymodi â ni trwy aberthu'i hun o'i wirfodd.

Mae disgrifiad Marc o farwolaeth Iesu yn canolbwyntio ar Iesu, ond hefyd ar ymatebion y rhai a oedd yn dystion i'w farwolaeth. Ac mae'n ddiddorol gweld sut maent yn ymateb.

> *Bydd yn rhaid i chi gael y penawdau canlynol yn barod i'w dangos, gan ddatguddio pob un o'r penawdau yn raddol wrth i'r sgwrs fynd yn ei blaen.*

Ymatebion i'r groes:

y milwyr prysur

yr arweinwyr crefyddol hunanfodhaol

Pilat y llwfrgi

y gwyliwr ar wahân

y canwriad Rhufeinig, wnaeth gydnabod mai Iesu oedd "Mab Duw"

Y MILWYR PRYSUR

I ddechrau ceir y milwyr, sy'n gyfrifol am y croeshoelio. Rydym yn cyfarfod y milwyr am y tro cyntaf yn Marc 15, adnodau 16-20.

> *Darllenwch Marc 15:16-20 allan yn uchel.*

A dyma sut maent yn ymateb i'r groes yn adnod 24.

> *Darllenwch Marc 15:24 allan yn uchel.*

I'r milwyr hyn, prif etifeddiaeth y groes yw dillad Iesu. Maent wedi ymgolli'n llwyr yn y gwaith y maent yn ei wneud. Nid ydynt yn gweld unrhyw beth arbennig am y dyn hwn. Maent wedi gweld y cyfan o'r blaen. Does dim amheuaeth eu bod yn gwneud eu gwaith yn dda ond, wrth gyflawni eu dyletswyddau, gwnaethant golli gwir etifeddiaeth y groes.

Mae llawer yn byw eu bywydau o ddydd i ddydd yn gwneud eu dyletswyddau, yn gweithio'n galed, yn arbed arian ar gyfer y morgais. Wedi ymgolli yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, maent yn rhy brysur i sylwi beth mae'r groes yn ei olygu iddynt.

YR ARWEINWYR CREFYDDOL HUNANFODDHAOL

Yr ail grŵp o bobl i fod yn dystion i'r croesholiad yw'r arweinwyr crefyddol. Mae Marc yn dweud wrthym eu bod yn gwawdio Iesu ymhlith ei gilydd. Edrychwch ar yr hyn y maent yn ei ddweud yn adnodau 31-32.

> *Darllenwch Marc 15:31-32 allan yn uchel.*

Mae'r arweinwyr crefyddol hunanfoddhaol hyn wedi'u hargyhoeddi eu bod yn gwybod y ffordd at Dduw, ac nid yw Iesu Grist yn rhan o'r llwybr hwnnw. O'u rhan hwy, mae ganddynt berthynas â Duw eisoes. Maent eisoes yn ystyried eu bod yn bobl ysbrydol, ac yn sicr nid ydynt yn gweld unrhyw angen am y groes.

Yn amlach na pheidio, y bobl hynny, sydd wedi creu eu crefydd eu hunain gyda'u fformwla eu hunain o gadwraeth crefyddol a moesol, yw gelynyon mwyaf milain y groes.

PILAT Y LLWFRGI

Ac yna ceir Pilat. Mae'n gorchymyn i arwydd gael ei roi ar y groes. Mae'n dweud: "Brenin yr Iddewon". Mae holl ysgrifenydd yr Efengylau yn ein sicrhau bod Pilat yn gwbl sicr bod Iesu'n ddiuog. Mae'n cynnig rhyddhau Iesu, ond mae'r dyrfa eisiau i ddyn o'r enw Barabbas gael ei ryddhau yn ei le. Dro ar ôl tro, mae Pilat yn cefnogi Iesu. Ond yn y pen draw mae'n traddodi Iesu i gael ei groeshoelio. Felly pam mae Pilat yn traddodi dyn diuog? Edrychwch ar adnod 15.

> *Darllenwch Marc 15:15 allan yn uchel.*

Roedd Pilat eisiau bodloni'r dyrfa. Er ei fod yn gwybod bod Iesu'n ddiuog, gwnaeth pwysau gan eraill achosi iddo golli ei wroldeb a rhoi mewn i ddymuniadau drygionus eraill. Dyma lwfrgi a gefnodd ar Iesu. Pan mae'n wynebu byd sy'n casáu Iesu, mae'n anghofio am ei fwriadau da.

Y GWYLIWR AR WAHÂN

Mae Marc hefyd yn cofnodi ymateb rhai o'r gwylwyr eraill. Maent yn clywed Iesu'n gweiddi allan ac maent yn meddwl ei fod yn galw ar Elias. Yn ôl chwedl Iddewig dathlwyd bywyd Elias, a oedd yn broffwyd yn yr Hen Destament, fel un a oedd yn helpu'r rhai mewn angen. Yna mae Marc yn cofnodi ymateb un dyn yn arbennig. Dywed yn adnod 36.

> *Darllenwch Marc 15:36 allan yn uchel.*

Mae'r dyn hwn wedi dod i weld y sioe. Mae eisiau gweld Elias yn gwneud rhyw wyrth ysblennydd i achub Iesu. Nid yw gweld Iesu ar y groes yn effeithio ar y dyn hwn o gwbl. Yn hytrach, mae'n sefyll ar wahân ac mae'n gwrthod cymryd rhan.

Mae llawer o bobl debyg i'r dyn hwn. Maent yn gwybod am y groes, maent yn dod i'r capel adeg y Nadolig a'r Pasg i weld y sioe, ond nid ydynt yn gweld bod marwolaeth Iesu'n effeithio arnynt yn bersonol.

Trwy ddangos yr holl ymatebion gwahanol hyn, mae Marc fel petai'n dweud, "lawn, dyma sut y gwnaeth eraill ymateb i'r hyn a ddigwyddodd ar y groes. Beth amdanoch chi? Beth yw eich barn chi am y groes?"

Ydym ni'n rhy brysur fel y milwyr? Yn rhy hunanfodhaol fel yr arweinwyr crefyddol? Yn rhy lwfr fel Pilat? Neu a ydym ni ormod ar wahân, fel y gwylwr?

Fodd bynnag, mae un ymateb posibl arall i'r groes.

Y CANWRIAD RHUFEINIG, WNAETH GYDNABOD MAI IESU OEDD "MAB DUW"

Mae Marc yn cofnodi hyn yn adnod 39. Dyma ymateb y canwriad Rhufeinig, milwr caled a oedd yn swyddog milwrol o reng uchel. Mae'n siŵr ei fod wedi ymladd mewn nifer o ymgyrchoedd ac wedi gweld llawer o ddynion yn marw, ond doedd erioed wedi gweld dyn yn marw fel hyn. Dyma sut mae Marc yn ei ddisgrifio:

> *Darllenwch Marc 15:39 allan yn uchel.*

A dyna'n dewis olaf wrth i ni edrych ar beth ddigwyddodd ar y groes. Gallwn gydnabod bod Iesu yn dweud y gwir: mai ef yn wir yw Mab Duw.

Os ydych yn edrych ar draws nenlinell Llundain gallwch weld yr Hen Feili, cartref cyfiawnder Prydain. Ar frig yr adeilad mae cerflun aur godidog Pomeroy o'r dduwies Justicia yn dal clorian cyfiawnder yn un llaw a chleddyf digofaint yn y llall. Mae ganddi fwgwd dros ei llygaid, ac felly ni all ddangos tuedd, ac mae'r neges yn glir: os ydym yn cael ein barnu'n euog, mae'n rhaid i gleddyf barn ddisgyn.

Ond ar draws nenlinell Llundain, ar frig Eglwys Gadeiriol Sant Paul, ceir symbol aur arall. Croes - symbol pwerus i'n hatgoffa bod cleddyf barn Duw wedi disgyn. Ond disgynnodd ar Iesu Grist.

Felly beth ydych chi am ei wneud â'ch pechod? A ydych am fynd ag ef at y groes i gael maddeuant neu a ydych am fynd ag ef gyda chi i'r bedd ac i'r farn sy'n rhaid disgyn?

AR DDIWEDD Y SGWRS

Dyma rai cwestiynau ar gyfer eich grwpiau. Gobeithio y byddant yn eich annog i drafod.

> Dangoswch y cwestiynau canlynol a'u darllen allan yn uchel.

- **Allwch chi uniaethu ag unrhyw un o'r ymatebion i farwolaeth Iesu ar y groes?**
- **Dywedodd Iesu ei fod wedi dod 'i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer' (Marc 10:45). Sut ydych chi'n teimlo am hyn?**

> Caniatewch 30 munud i'r grwpiau weithio gyda'i gilydd trwy'r adran yn y Llawlyfr Astudio o'r enw Trafodaeth Grŵp 2.

AR DDIWEDD Y DRAFODAETH

Cyn y tro nesaf, defnyddiwch yr adran ASTUDIO GARTREF yn eich *Llyfr Astudio* i'ch helpu wrth i chi barhau i ddarllen trwy Marc.

> Dywedwch wrth y sawl sydd wedi dod y bydd penwythnos neu ddiwrnod i ffwrdd ymhen rhai wythnosau. Rhewch syniad bras iddynt o beth fydd yn digwydd a gofynnwch iddynt gadw'r dyddiad yn rhydd.

